Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Mai 2026

(Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg)

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

## Ymarfer Hapsamplu'r Panel Craffu Defnyddio grym ar blant

## Canfyddiadau ac adborth yr aelodau

## Mai 2026

## Cynnwys


1. Trosolwg, cefndir, diben, a methodoleg 3
2. Crynodeb gweithredol 5
3. Adolygiad o gofnodion defnyddio grym 9
4. Ymateb i ymholiadau a godwyd 20
5. Camau nesaf 28

## 1. Trosolwg, cefndir, diben, a methodoleg

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canfyddiadau'r Panel Sicrhau Ansawdd yn dilyn ei graffu ar ddefnydd yr heddlu o rym, gyda **ffocws penodol ar ddigwyddiadau sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc**. Yn unol â chylch gwaith sefydledig y panel, cyfarfu'r aelodau ar 19 Mai 2026 i adolygu sampl ar hap o gofnodion, gan ddarparu goruchwyliaeth annibynnol i sicrhau bod y defnydd o rym yn gyfreithlon, yn angenrheidiol ac yn gymesur, gan nodi arferion effeithiol a meysydd i ddysgu ohonynt. Mae gwaith y panel yn adlewyrchu disgwyliadau cenedlaethol i wella tryloywder, deall anghymesuredd, a chynnal hyder y cyhoedd yn y defnydd o bwerau'r heddlu.

Mae cefndir, pwrpas a methodoleg y panel wedi'u nodi yn y llawlyfr sicrhau ansawdd, sydd ar gael ar wefan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, sy'n sail i'r dull o hapsamplu a chraffu. Ar gyfer y sesiwn hon, gofynnwyd i aelodau adolygu detholiad o ddigwyddiadau defnyddio grym yn ymwneud â phlant, gan asesu pob achos yn erbyn safonau cydnabyddedig o degwch, atebolrwydd a chymesuredd.

Roedd ffocws penodol y cyfarfod hwn yn ei gwneud yn ofynnol i aelodau'r panel wneud y canlynol:

| |
|---|
| *penderfynu ar y math o rym a ddefnyddiwyd gan swyddogion ac asesu, o edrych ar y fideo camera corff, a oedd y grym a ddefnyddiwyd yn angenrheidiol, yn briodol, ac yn gymesur.* |

I gefnogi'r broses hon, rhoddodd Prif Arolygydd Gweithrediadau Arbenigol fewnbwn ar y fframwaith cyfreithiol sy'n llywodraethu defnydd yr heddlu o rym. Atgoffwyd y panel fod rhaid i unrhyw ddefnydd o rym fod yn seiliedig ar ddeddfwriaeth sefydledig ac egwyddorion cyfraith gyffredin, yn benodol y canlynol:

- **Cyfraith gyffredin**, sy'n caniatáu grym rhesymol wrth hunanamddiffyn neu amddiffyn eraill;

- Mae **adran 3 o Ddeddf Cyfraith Troseddol 1967** yn caniatáu grym rhesymol wrth atal troseddu neu wrth arestio troseddwyr yn gyfreithlon; a
- Mae **adran 117 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984** yn caniatáu grym rhesymol wrth arfer pwerau o dan y ddeddf honno.

Atgyfnerthodd y mewnbwn hwn fod yn rhaid i bob defnydd o rym fod yn gyfiawn, yn angenrheidiol ac yn gymesur yn yr amgylchiadau, gyda phob swyddog yn atebol yn unigol am eu penderfyniadau. Roedd hyn yn sicrhau fod aelodau'r panel yn defnyddio dull cyson a gwybodus wrth adolygu'r fideo camera corff a'r cofnodion cysylltiedig.

Yn ogystal, cafodd craffu'r Panel ei lywio gan egwyddorion **plismona sy'n canolbwyntio ar y plentyn**, fel y'u nodir yn Strategaeth Plismona Plant a Phobl Ifanc 2024–2027 Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (yr NPCC). Mae'r dull hwn yn cydnabod bod gan blant anghenion a nodweddion agored i niwed a bod yn rhaid eu trin fel plant yn gyntaf, mewn unrhyw ryngweithio â'r heddlu. Mae'n pwysleisio meithrin ymddiriedaeth, sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei glywed, a blaenoriaethu diogelu a chanlyniadau hirdymor.

Wrth gymhwyso'r egwyddorion hyn, canolbwyntiodd yr hap samplo yn fwriadol ar achosion yn ymwneud â phlant a phobl ifanc. Galluogodd hyn y panel i asesu a oedd swyddogion wedi dangos dealltwriaeth briodol o fregusrwydd, wedi osgoi troseddoli diangen, ac wedi mabwysiadu ymatebion cymesur wedi'u harwain gan ddiogelu. Mae hyn yn cyd-fynd â'r amcan ehangach o ymgorffori diwylliant o blismona sy'n canolbwyntio ar y plentyn, gan sicrhau bod rhyngweithio â phlant yn gyfreithlon, yn deg ac yn canolbwyntio ar leihau niwed wrth gynnal hyder y cyhoedd.

## 2. Crynodeb gweithredol

Adolygodd y Panel Sicrhau Ansawdd saith digwyddiad o ddefnyddio grym yn ymwneud â phlant a phobl ifanc er mwyn asesu a ddefnyddiwyd grym yn gyfreithlon, yn gymesur, ac yn unol ag egwyddorion plismona sy'n canolbwyntio ar y plentyn.


### Asesiad cyffredinol


Canfu'r panel, yn y rhan fwyaf o achosion, fod swyddogion wedi defnyddio grym yn gyfreithlon, yn gymesur, a chyda chyfiawnhad priodol. Roedd tystiolaeth gyson o swyddogion yn dangos amynedd, hunanreolaeth, a phroffesiynoldeb mewn amgylchiadau heriol, a oedd yn aml yn cynnwys lefelau uchel o ymddygiad ymosodol, gofid, neu fregusrwydd.


Fodd bynnag, nododd y panel faterion a oedd yn codi dro ar ôl tro yn ymwneud â chyfathrebu, cysondeb o ran diogelu ac ansawdd data, ac mae rhai ohonynt wedi cael eu hamlygu mewn adroddiadau blaenorol. Mae'r materion hyn yn cyflwyno risgiau parhaus i hyder y cyhoedd, dysgu sefydliadol, a gallu'r heddlu i ddangos atebolrwydd.


### Canfyddiad cyffredinol o ymddygiad a bygythiad











## Ymddygiad a gweithdrefnau swyddogion










## Cryfderau allweddol a nodwyd

- **Cyfiawnhad cyfreithiol a gweithredol cryf**
  - Aseswyd y rhan fwyaf o’r achosion a adolygwyd fel rhai angen-rheidiol, rhesymol, a chymesur, gan ddangos cydymffurfiaeth dda â fframweithiau cyfreithiol a hyfforddiant.
- **Dad-ddwysáu effeithiol a phroffesiynoldeb**

- Yn aml, dangosodd swyddogion amynedd, cyfathrebu tawel, ac ymatebion mesuredig, yn enwedig mewn sefyllfaoedd ymfflamychol a risg uchel.

- **Cydnabod risg a bregusrwydd**
  - Roedd tystiolaeth mewn sawl achos o swyddogion yn nodi pryderon diogelu ac yn gweithredu i reoli risg uniongyrchol, gan gynnwys amddiffyn y plentyn ac eraill rhag niwed.

- **Enghreifftiau cadarnhaol o arfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn**
  - Roedd rhai rhyngweithiadau yn adlewyrchu ymdrech fwriadol i feithrin perthynas, addasu cyfathrebu, a lleihau'r angen am rym.

## Meysydd allweddol i'w gwella

- **Anghysondeb o ran cyfathrebu sy'n canolbwyntio ar y plentyn**
  - Mewn sawl achos, ystyriwyd bod yr iaith a ddefnyddiwyd gan swyddogion yn amhriodol neu heb fod yn cyd-fynd ag egwyddorion sy'n canolbwyntio ar y plentyn.
  - Nid oedd cyfathrebu bob amser yn effeithiol wrth sicrhau bod plant yn deall yr hyn a ddisgwylid ganddynt, a allai gyfrannu at waethygu'r sefyllfa.

- **Archwiliad cyfyngedig o fregusrwydd sylfaenol**
  - Nododd y panel dystiolaeth gyfyngedig o ddulliau sy'n ystyriol o drawma neu sy'n cael eu harwain gan les, heb ddigon o archwiliad o ffactorau fel iechyd meddwl, gofid, neu brofiadau blaenorol.

- **Problemau ansawdd data parhaus**
  - Roedd gwallau a hepgoriadau dro ar ôl tro yng nghofnodion defnyddio grym, gan gynnwys y canlynol:
    - Dyddiadau a manylion demograffig anghywir
    - Gwybodaeth ar goll yn ymwneud ag ymosodiadau neu anghenion meddygol
  - Mae'r materion hyn wedi'u nodi o'r blaen ac maent yn parhau i fod heb eu datrys, gan gyfyngu ar ddibynadwyedd data a phrosesau craffu.

- **Cyfyngiadau camerâu corff**
  - Mewn sawl achos, roedd actifadu yn hwyr neu fideo anghyflawn yn cyfyngu ar allu'r panel i asesu'r canlynol yn llawn:
    - Ymgysylltiad cychwynnol
    - Dad-ddwysáu geiriol
  - Mae hyn yn lleihau tryloywder ac effeithiolrwydd craffu annibynnol.

- **Diogelu ac eglurder gweithdrefnol**
    - Roedd diffyg eglurder ynghylch camau diogelu, gan gynnwys a oedd atgyfeiriadau (e.e. Hysbysiadau er Diogelu'r Cyhoedd) wedi'u cwblhau.
    - Cododd rhai penderfyniadau gweithredol bryderon ynghylch trin unigolyn a gedwir yn y ddalfa a rheoli'r lleoliad.

## 3. Adolygiad o gofnodion defnyddio grym

| Cofnod 1 |
| --- |
| **Amgylchiadau**<br><br>Mae merch wedi ymosod ar weithiwr gofal benywaidd arall ac wedi bygwth ymosod ar swyddogion yn ogystal â cheisio cicio ffenestri a dodrefn o fewn y cyfeiriad. |
| **Pwyntiau cadarnhaol**<br><br>• Ystyriwyd bod hon yn sefyllfa anodd ac roedd y Panel Sicrhau Ansawdd yn cydnabod bod ymddygiad y plentyn yn heriol. Cyfeiriwyd at y ffaith y byddai'r sefyllfa wedi gwaethygu gan achosi mwy o niwed a/neu ddifrod heb swyddogion yn bresennol. Ystyriwyd bod y grym a ddefnyddiwyd yn gymesur ac yn angenrheidiol oherwydd hyn.<br><br>• Rhoddodd swyddogion ddigon o gyfle i'r plentyn newid ei hymddygiad gan ddangos amynedd canmoladwy wrth ymdrin â bygythiadau'r plentyn i niweidio ei hun ac eraill. Ystyriodd y Panel Sicrhau Ansawdd fod y plentyn yn gallu deall cyfarwyddyd ond roedd yn ymddangos ei bod wedi gwyro'n fwriadol oddi wrth y cyfarwyddyd hwn, a arweiniodd yn y pen draw at ei harestio. |
| **Meysydd i'w gwella**<br><br>• Clywyd y swyddog arweiniol yn gwneud sylwadau amhriodol wrth gyfeirio at y plentyn a'i hymddygiad. Roedd tôn y swyddog, a oedd yn hebrwng y plentyn i'r fan, yn ymddangos fel ei fod wedi colli ei amynedd ar y pwynt hwn.<br><br>• Roedd ansicrwydd ynglŷn â pham y caniataodd swyddogion i staff gofal gynnig potel ddŵr fetel/plastig i'r plentyn a arweiniodd at y plentyn yn ymosod ar y swyddog. Roedd staff gofal hefyd yn ceisio cynnig llwy fetel, a gredir ei bod yn cynnwys meddyginiaeth, ac roedd y Panel Sicrhau Ansawdd o'r farn y dylai swyddogion fod wedi ymyrryd yn gynt wrth ystyried ymddygiad y plentyn a'r risg bosibl iddi'i hun ac i eraill.<br><br>• Nid oedd y Panel Sicrhau Ansawdd yn teimlo bod y swyddog cysylltiedig yn darparu llawer o gymorth i ddad-dwysáu'r sefyllfa ac roedd rhai aelodau'n teimlo ei bod yn amhriodol cael dau swyddog gwrywaidd yn trin plentyn benywaidd, er gwaethaf y ffaith bod y staff gofal yn fenywod. Teimlai'r Panel Sicrhau Ansawdd fod hyn yn |

| |
|---|
| annheg ar y swyddogion a'r plentyn.<br><br>• Roedd rhai anghysondebau ar y ffurflen gan gynnwys bod dyddiad yr hyfforddiant er Diogelu'r Cyhoedd a gyflwynwyd fel pe bai'n wedi'i gwblhau'n anghywir a chynigiwyd meddyginiaeth i'r plentyn ac nid oedd hyn yn ymddangos ar y ffurflen.<br><br>• Nid oedd rhai aelodau o'r Panel Sicrhau Ansawdd yn teimlo bod y swyddogion wedi gwneud digon o ymdrech i ddeall pam roedd y plentyn yn ymddwyn fel hyn a pham ei bod yn gwrthwynebu aros yn ei hystafell. |
| **Materion a godwyd**<br><br>• Nododd y Panel Sicrhau Ansawdd fod y swyddog arweiniol wedi defnyddio iaith a allai gael ei hystyried yn amhriodol wrth siarad am y plentyn a'i hymddygiad. A all yr heddlu wneud sylwadau ynghylch a oedd y cyfathrebu hwn yn gyson â disgwyliadau'r sefydliad ac egluro sut y disgwylir i swyddogion gynnal proffesiynoldeb yn ystod cyfarfyddiadau heriol?<br><br>• Mae anghysondebau'n parhau gyda'r ffurflen a gyflwynwyd sy'n cynnwys dyddiad yr hyfforddiant er Diogelu'r Cyhoedd a'r feddyginiaeth a gynigiwyd. A allwch chi roi gwybod a oes unrhyw beth ar waith i wella cywirdeb ffurflenni defnyddio grym?<br><br>• Ydych chi'n cytuno ag asesiad y Panel Sicrhau Ansawdd y gallai'r swyddog cysylltiedig fod wedi rhoi mwy o gefnogaeth i'r swyddog arweiniol? |

| Cofnod 2 |
|---|
| **Amgylchiadau**<br><br>Mae plentyn wedi cael ei arestio yn y lleoliad gan swyddogion am dorri mechnïaeth y llys ac nid yw'n cydymffurfio. Wedi hynny, cafodd ei gyfyngu ar y llawr a'i hebrwng i fan yr heddlu. |
| **Pwyntiau cadarnhaol**<br><br>• Clywyd swyddogion yn egluro'n glir y rhesymeg dros yr arestio.<br><br>• Dangosodd y plentyn lawer o ymddygiad ymosodol a bygythiol tuag at y swyddogion ar y safle, ac roedd hyn yn cyfiawnhau'r defnydd o rym a welwyd gan y Panel Sicrhau Ansawdd.<br><br>• Roedd y Panel Sicrhau Ansawdd yn teimlo fod y ffurflen defnyddio grym wedi'i chwblhau'n gywir ar gyfer y digwyddiad hwn. |
| **Meysydd i'w gwella**<br><br>• Roedd yn heriol i'r Panel Sicrhau Ansawdd graffu ar gymesuredd y fideo o'r camera corff hwn, oherwydd bod y fideo cysylltiedig ond yn dangos y swyddog cefnogi yn cyrraedd i gynorthwyo gyda'r arestio a chefnogi'r broses o'i gyfyngu ar y llawr a hebrwng y plentyn i'r fan heddlu. Felly, roedd hi'n anodd i'r Panel Sicrhau Ansawdd ddatgan a oedd unrhyw ymgais i dawelu'r sefyllfa ar lafar cyn yr arestio.<br><br>• Clywyd y swyddog arestio yn defnyddio terminoleg amhriodol wrth gyfeirio at ymddygiad y plentyn.<br><br>• Roedd trydydd parti anhysbys yn y fan a'r lle, a chaniataodd swyddogion iddo roi ei ddwylo ar y plentyn. Nid oedd y Panel Sicrhau Ansawdd yn gweld hyn yn briodol ac yn teimlo y dylai swyddogion fod wedi ymyrryd.<br><br>• Gwelodd y Panel Sicrhau Ansawdd y swyddogion yn brwydro i gael y plentyn i mewn i'r fan ac roedd rhai o'r farn bod y grym a ddefnyddiwyd yn yr achos hwn yn rhy ymosodol. |

**Materion a godwyd**

- Nid oedd yn glir o'r ffurflen a oedd y trydydd parti yn y lleoliad yn weithiwr proffesiynol neu'n ffrind/aelod o'r teulu i'r sawl a ddrwgdybir. Gan fod yr unigolyn yn amlwg drwy gydol y fideo ac yn rhoi ei ddwylo ar y plentyn, a ellir egluro hyn os yw'n hysbys?

- Ystyriodd y Panel Sicrhau Ansawdd fod yr iaith a ddefnyddiwyd yn y cofnod hwn a'r un blaenorol yn amhriodol ac nad oedd yn canolbwyntio ar y plentyn. Beth yw barn yr heddlu ynglŷn â hyn?

- Pa ystyriaethau mae'r heddlu'n eu rhoi i ddiogelwch a lles person sydd wedi'i arestio ar ôl iddo gael ei roi mewn fan? Ymddengys bod y fideo'n dangos, oherwydd nad oedd y plentyn yn cydymffurfio, ei fod wedi cael ei adael ar y llawr gyda'i ddwylo mewn gefynnau y tu ôl i'w gefn. A ystyrir bod hyn yn arfer priodol?

| Cofnod 3 |
|---|
| **Amgylchiadau**<br><br>Mae plentyn wedi dianc oddi wrth staff ac wedi gwneud sylwadau am hunan-niweidio. Mae swyddogion wedi dod o hyd i'r plentyn a'i hebrwng yn ôl i'w gartref gofal dynodedig. |
| **Pwyntiau cadarnhaol**<br><br>• Dangosodd swyddogion amynedd rhagorol mewn sefyllfa heriol iawn lle nad oedd y plentyn am ddychwelyd i'w le diogel dynodedig. Gwelwyd bod eu harddull cyfathrebu, yn enwedig defnyddio enw cyntaf y plentyn, yn beth cadarnhaol wrth geisio meithrin perthynas.<br><br>• Ystyriwyd bod y grym a ddefnyddiwyd yn gymesur, yn enwedig o ystyried bod y plentyn wedi ceisio brathu, poeri a chicio'r swyddogion. O dan yr amgylchiadau hyn, ystyriwyd bod y swyddogion wedi dangos rheolaeth canmoladwy.<br><br>• Gwelodd y Panel Sicrhau Ansawdd y swyddogion yn brwydro i gael y plentyn i mewn i'r fan; fodd bynnag, ailystyriodd y swyddogion y sefyllfa a chaniatáu i'r plentyn eistedd ar ymyl y fan, a arweiniodd ato'n mynd i mewn yn wirfoddol. Canmolodd y Panel Sicrhau Ansawdd yr amynedd a chwrteisi a ddangoswyd. |
| **Meysydd i'w gwella**<br><br>• Nid oedd y Panel Sicrhau Ansawdd yn siŵr a oedd swyddogion wedi archwilio pam roedd y plentyn yn amharod i ddychwelyd i'r cartref gofal. Er bod y ffurflen defnyddio grym yn cyfeirio at bryderon iechyd meddwl, ni welwyd hyn gan y panel. |
| **Materion a godwyd**<br><br>• Gwelodd y Panel Sicrhau Ansawdd y swyddogion yn brwydro i gael y plentyn yng nghofnod 3 i mewn i'r fan yn wahanol i'r hyn a welwyd yng nghofnod 2. Roedd y Panel Sicrhau Ansawdd yn canmol y ffordd y gwnaeth y swyddogion yng nghofnod 3 ailystyried y sefyllfa a chaniatáu i'r plentyn ddod i mewn o'i ewyllys ei hunan. A ydych chi'n ystyried y gellir cymharu'r ffordd y mae'r ddau gofnod yn dangos sut mae swyddogion wedi mynd ati i fynd i'r afael â'r sefyllfa; ac os felly, a oes unrhyw ddysgu y gellid ei nodi o hyn?<br><br>• Nododd y Panel Sicrhau Ansawdd nad oedd yn glir a wnaed digon o archwiliad i ddeall pam roedd y plentyn yn amharod i ddychwelyd i'r cartref gofal. Yn eich barn chi, pa ystyriaeth a roddwyd i'r rhesymau |

dros ei amharodrwydd, a sut y gallai hyn fod wedi dylanwadu ar y penderfyniad i ddefnyddio grym?

| **Cofnod 4** |
|---|
| Mae’r sawl a ddrwgdybir wedi malu cwpan yn wyneb y dioddefwr gan arwain at anaf ac mae wedi cael ei arestio wedi hynny. Mae swyddogion wedi cyrraedd y cyfeiriad cartref i arestio’r plentyn ar ôl y digwyddiad. |
| **Pwyntiau cadarnhaol**<br>• Er bod y plentyn yn ufudd, roedd ei ymddygiad yn ymddangos yn anarferol naill ai oherwydd iechyd meddwl, sioc neu feddwdod. Ystyriwyd bod y swyddogion yn bryderus am anghenion iechyd y plentyn a gofynasant a oedd yntau wedi’i anafu.<br>• Oherwydd natur dreisgar yr honiad a gofnodwyd, teimlai’r Panel Sicrhau Ansawdd fod y grym (rhoi gefynnau) yn angenrheidiol i amddiffyn eu hunain, y plentyn a’r teulu yn yr eiddo. |
| **Meysydd i’w gwella**<br>• Nid yw’n glir o’r ffurflen a gyflwynwyd Hysbysiad er Diogelu’r Cyhoedd (adroddiad strwythuredig a ddefnyddir gan swyddogion i gofnodi a rhannu gwybodaeth am ddigwyddiadau yn ymwneud ag unigolion agored i niwed neu bryderon risg, fel y gall yr heddlu ac asiantaethau partner gymryd camau diogelu priodol). |
| **Materion a godwyd**<br>• Nid yw’n glir o’r ffurflenni a gyflwynwyd Hysbysiad er Diogelu’r Cyhoedd. O ystyried y gofyniad i ddiogelu plant sy’n ddarostyngedig i bwerau’r heddlu, a ddylai hyn fod yn gynhwysiad wrth symud ymlaen? |

| Cofnod 5 |
|---|
| **Amgylchiadau**<br><br>Mae plentyn a ddrwgdybir wedi dyrnu’r dioddefwr ar ochr ei wyneb gan achosi clwyf. Mae’r plentyn wedi dianc wedi hynny. Mae’r fideo o’r camera corff yn dangos y swyddogion yn lleoli’r plentyn ac yn ei arestio. |
| **Pwyntiau cadarnhaol**<br><br>• Roedd cyfathrebu’r swyddog yn ymddangos yn frysiog ac yn anghwrtais ar y dechrau, ond ystyriodd y Panel Sicrhau Ansawdd fod ymddygiad y swyddog wedi dechrau addasu tuag at y plentyn, a oedd yn ymddangos yn ofnus. Ystyriodd y Panel Sicrhau Ansawdd fod y swyddogion wedi addasu eu tôn a’u bod yn dawel a bob amser mewn rheolaeth.<br><br>• Teimlai mwyafrif y Panel Sicrhau Ansawdd fod yr hyn a arsylwyd wedi’i gofnodi’n gywir ar y ffurflen defnyddio grym.<br><br>• Cynhaliodd swyddogion chwiliad trylwyr a gwelwyd hwy yn ymholi ynghylch cleisiau a ddarganfuwyd ar wddf y plentyn. |
| **Meysydd i’w gwella**<br><br>• Nid oes unrhyw arwydd yn y ffurflenni bod Hysbysiad er Diogelu’r Cyhoedd wedi’i gyflwyno.<br><br>• Nid oedd y Panel Sicrhau Ansawdd yn siŵr a oeddent wedi clywed y swyddogion yn cyflwyno eu hunain i’r plentyn wrth gyfarfod â’r plentyn i ddechrau. |

| Cofnod 6 |
|---|
| **Amgylchiadau**<br><br>Honiad bod dwy ferch wedi ymosod ar blentyn arall drwy ei chicio yn ei hwyneb. Roedd y swyddog ar ei ben ei hun pan wnaeth eu harestio. |
| **Pwyntiau cadarnhaol**<br><br>• Roedd y plentyn mewn gofid mawr ac yn dangos ymddygiad ymosodol, gan adael y swyddog â dewisiadau cyfyngedig yn dilyn yr arestio. Er gwaethaf yr amgylchiadau heriol, roedd y Panel Sicrhau Ansawdd o'r farn bod y swyddog wedi rheoli'r sefyllfa'n effeithiol ar ôl yr arestio..<br><br>• Ystyriwyd bod y defnydd o rym a gymhwyswyd yn gymesur oherwydd y ffordd yr oedd y plentyn yn ymddwyn a'i bod yn mynnu cael ei rhyddhau.<br><br>• Dangosodd swyddogion hunanreolaeth a thawelwch canmoladwy wrth ymdrin â phlentyn a oedd yn amharchus, yn ymosodol ac yn hysterig. |
| **Meysydd i'w gwella**<br><br>• Er bod y defnydd o rym yn yr achos hwn yn cael ei ystyried yn gymesur, roedd y ffordd y datblygodd pethau'n ymddangos yn anhrefnus. Roedd y Panel Sicrhau Ansawdd yn cydnabod yr heriau a wynebwyd gan y swyddog yn gweithredu ar ei ben ei hun ac yn rheoli dau blentyn benywaidd. O ystyried y lleoliad cyhoeddus, teimlai'r Panel Sicrhau Ansawdd y gallai presenoldeb swyddog ychwanegol fod wedi helpu i dawelu'r sefyllfa, a bod y swyddog wedi symud yn rhy gyflym i ymgysylltu'n gorfforol â'r plentyn a arestiwyd.<br><br>• Sylwodd rhai aelodau o'r Panel Sicrhau Ansawdd nad oedd angen gwisgo'r menig du cyn defnyddio grym. Efallai bod hyn wedi dychryn y plentyn a allai fod wedi cyfrannu at ei chyflwr hysterig.<br><br>• Ar y ffurflen defnyddio grym, o dan rywedd canfyddedig, mae'r swyddog sy'n mewnbynnu'r wybodaeth wedi cyflwyno *'arall'*. Mae'r manylyn hwn yn anghyson â sut mae'r disgrifiad o'r amgylchiadau wedi'i fynegi. Mae cyfeiriad at ddwy unigolyn benywaidd dan amheuaeth yn y ffurflen defnyddio grym; fodd bynnag, dim ond fideo o un plentyn lle defnyddiwyd grym yn ei herbyn a ddangoswyd gan y camera corff. |
| **Materion a godwyd** |

- Mewn cryn dipyn o’r fideo camera corff a welwyd, mae’r Panel Sicrhau Ansawdd yn teimlo bod cyflwyniad y swyddogion a’r esboniad o reswm dros y cyswllt yn absennol neu’n anghyson. Nid yw hyn yn awgrymu na ddigwyddodd hyn, ond nid yw’r ffordd y mae fideo’r camera corff yn cael ei olygu yn gyson â hyn.

- Sylwodd rhai aelodau o’r Panel Sicrhau Ansawdd nad oedd angen gwisgo’r menig du cyn defnyddio grym. Efallai bod hyn wedi dychryn y plentyn ac efallai ei fod wedi cyfrannu at ei chyflwr hysterig. Ydych chi’n cytuno â’r asesiad hwn?

| Cofnod 7 |
| --- |
| **Amgylchiadau**<br><br>Mae’r sawl a ddrwgdybir wedi cael ei arestio ar honiad ei fod wedi ymosod ar ddioddefwr arall. Roedd yn ymddangos bod y sawl a ddrwgdybir naill ai wedi meddwi neu’n profi problemau iechyd meddwl a oedd yn golygu bod angen i swyddogion cymorth a pharafeddygon ymyrryd. |
| **Pwyntiau cadarnhaol**<br><br>• Roedd y Panel Sicrhau Ansawdd yn canmol yn fawr yr holl swyddogion a oedd yn rhan o’r achos hwn o ddefnyddio grym. Clywyd y plentyn yn gwneud nifer o fygythiadau o drais tuag at y swyddogion a’i deulu. Poerodd y plentyn hefyd yn wyneb y swyddog a oedd y gwisgo camera corff. Nid oedd unrhyw arwydd o rym anghymesur yn cael ei ddefnyddio, arhosodd swyddogion yn broffesiynol ac yn ofalgar o dan amgylchiadau heriol eithriadol.<br><br>• Ystyriodd y Panel Sicrhau Ansawdd fod tuedd uchel o drais a pherygl gyda’r plentyn hwn nad oedd modd rhesymoli ag ef, naill ai oherwydd meddwdod, problemau iechyd meddwl neu gamddefnyddio sylweddau.<br><br>• Nododd y Panel Sicrhau Ansawdd hefyd yr amodau amgylcheddol anffafriol yr oedd swyddogion yn gweithredu ynddynt. Digwyddodd y digwyddiad mewn lleoliad gwledig, mewn tywyllwch, ac mewn amodau a oedd yn ymddangos yn wlyb ac oer. Er gwaethaf yr heriau hyn, dangosodd swyddogion a staff meddygol amynedd a gofal wrth iddynt drin y plentyn.<br><br>• Gwnaeth swyddogion ymdrech gydlynol i gynnwys rhiant y plentyn i gefnogi gyda thawelu ei ymddygiad. Roedd yn amlwg nad oedd y plentyn yn deall unrhyw dawelu geiriol. |
| **Meysydd i’w gwella**<br><br>• Er fod staff meddygol ar y safle, ni nodwyd hyn ar y ffurflen defnyddio grym, na’r ffaith fod y plentyn wedi gofyn am gymorth meddygol.<br><br>• Nododd y Panel Sicrhau Ansawdd anallu’r plentyn i ymgysylltu â swyddogion, staff meddygol, a’i riant neu ddilyn cyfarwyddiadau ganddynt. Oherwydd anghysondeb ei gyfathrebu a’i ymddygiad, tybiwyd ei fod o bosibl wedi bod dan ddylanwad sylweddau a/neu ei fod wedi bod yn profi problemau iechyd meddwl sylfaenol. Gofynnodd y Panel Sicrhau Ansawdd a oedd hyn wedi’i archwilio gan yr heddlu oherwydd nad oedd hyn wedi ei ddogfennu ar y |

| |
|---|
| ffurflen.<br><br>• Mae anghysondebau eraill yn y ffurflen yn cynnwys y flwyddyn a fewnbynnwyd yn 2025 pan gadarnhaodd y camera corff mai 2026 ydoedd, dewiswyd y rhyw canfyddedig fel "arall", mae fideo hefyd yn dangos bod y plentyn wedi poeri ar y swyddog ac nad oes cyfeiriad at yr ymosodiad hwn yn y ffurflen. |
| **Materion a godwyd**<br><br>• Roedd nifer o anghysondebau yn y ffurflen gan gynnwys rhywedd/ethnigrwydd canfyddedig, cymorth meddygol, dyddiad y cofnod a'r manylion coll am yr ymosodiad. O ystyried yr anghysondebau a ganfuwyd yn adroddiad defnydd o rym y Panel Sicrhau Ansawdd y llynedd, pa sicrwydd y gall yr heddlu ei roi i sicrhau bod cofnodion a gofnodwyd yn gwella? |
| **Ymarfer nodedig**<br><br>• Hoffai'r Panel Sicrhau Ansawdd roi adborth i'r swyddogion dan sylw y dylai rheolwyr llinell ganmol y gofal, yr amynedd a'r proffesiynoldeb a ddangoswyd ganddynt wrth drin y plentyn hwn. |

## 4. Ymateb i ymholiadau a godwyd

| Arsylwadau | Ymateb yr heddlu |
|---|---|
| Nodwyd nifer o anghysondebau ar draws y ffurflenni defnydd o rym a adolygwyd, gan gynnwys anghysondebau yn y rhywedd a'r ethnigrwydd canfyddedig a gofnodwyd, hepgoriadau yn ymwneud â chymorth meddygol, dyddiadau cofnodi anghywir, a manylion ar goll—megis y rhai yn ymwneud ag ymosodiad ar swyddog. O ystyried bod materion tebyg wedi'u hamlygu gan y Panel Sicrhau Ansawdd yn adroddiad defnyddio grym y llynedd, a allwch chi roi gwybod a oes unrhyw beth ar waith i wella cywirdeb ffurflenni defnyddio grym? | *Cyfrifoldeb y swyddog unigol sy'n cwblhau'r ffurflen yw cywirdeb yr wybodaeth a fewnbynnir i'r ffurflen defnyddio grym. Derbynnir bod anghysondebau'n parhau yn y maes hwn fel y'i hamlygwyd gan y Panel Sicrhau Ansawdd. Mae'r heddlu'n parhau i ganolbwyntio ar sicrhau cywirdeb ac ansawdd data a bydd y pryderon a godwyd eto gan y Panel Sicrhau Ansawdd yn cael eu trosglwyddo i'r adrannau perthnasol o fewn yr heddlu (gan gynnwys Hyfforddiant Gweithrediadau Arbenigol a'r Adran Dysgu a Datblygu) i'w hadolygu ac i ystyried sut y gellir gwella hyn wrth symud ymlaen fel rhan o'r pwyslais ehangach ar ansawdd data'r heddlu.* |
| Nid yw'n glir o unrhyw un o'r ffurflenni a yw Hysbysiad er Diogelu'r Cyhoedd wedi'i gyflwyno. O ystyried y gofyniad i ddiogelu plant sy'n ddarostyngedig i bwerau'r heddlu, a ddylai hyn fod yn gynhwysiad wrth symud ymlaen? | *Ar hyn o bryd nid oes cyfleuster o fewn y ffurflen defnyddio grym i gofnodi'r wybodaeth hon. Nid yr heddlu sydd "berchen" templed y ffurflen ac nid yw o dan reolaeth uniongyrchol yr heddlu gan ei bod yn rhan o system "PRONTO" a chydweithrediad ehangach system NICHE. Mae angen cytuno ar unrhyw newidiadau sylweddol i'r ffurflen ei hun gyda'r darparwyr meddalwedd a'r heddluoedd eraill yng nghydweithrediad rhanbarthol Niche, fodd bynnag, bydd y sylw hwn gan y panel yn cael ei anfon ymlaen at y tîm perthnasol o fewn* |

| | |
|---|---|
| | *Heddlu Dyfed-Powys i'w ystyried.*<br><br>*Dim ond un rhan o'r broses gofnodi yw'r ffurflen defnyddio grym ei hun a byddai cyflwyno Hysbysiad er Diogelu'r Cyhoedd (neu fel arall) yn cael ei gofnodi ar gofnod ymholiad digwyddiad Niche sy'n destun adolygiad gan oruchwyliwr y swyddogion a hapsamplu gan arolygwyr yr heddlu.* |
| Ymholiadau sy'n gysylltiedig â chofnod 1:<br><br>**1.** Nododd y Panel Sicrhau Ansawdd fod y swyddog arweiniol wedi cael ei glywed yn defnyddio sylwadau amhriodol wrth gyfeirio at y plentyn a hefyd wedi defnyddio sylwadau amhriodol wrth gyfeirio at ei ymddygiad. A all yr heddlu adolygu'r camera corff hwn ac asesu a ystyrir bod y sylwadau hyn yn briodol wrth drin y plentyn hwn?<br><br>**2.** Asesodd y Panel Sicrhau Ansawdd y dylai'r swyddog cysylltiedig fod wedi rhoi mwy o gefnogaeth i'r swyddog arweiniol. A allwch chi roi cyd-destun i'w cyfranogiad ac a ydych chi'n cytuno ag asesiad y panel? | *1) Roedd y swyddog yn ymdrin â sefyllfa heriol iawn a allai fod yn ymfflamychol yn ymwneud â person ifanc agored i niwed a oedd yn arddangos ymddygiad heriol. Mater i bob swyddog unigol yw cyfiawnhau ei weithredoedd a'i ddull cyfathrebu ei hun. Yn yr amgylchiadau penodol hyn efallai nad oedd y dewis o dermau ac iaith yn briodol, a bydd y mater yn cael ei amlygu i'r swyddog a'i oruchwyliwr er mwyn rhoi cyfle i'r swyddog fyfyrio ar ddewis iaith mewn amgylchiadau tebyg yn y dyfodol. Wedi dweud hynny, roedd yn amlwg bod y swyddog wedi gwneud ei orau yn yr amgylchiadau heriol yr oedd yn eu hwynebu ac yn amlwg roedd yn ystyried budd pennaf y person ifanc.*<br><br>*2) O ran gweithredoedd y swyddog cysylltiedig, mater i bob swyddog unigol yw penderfynu a ydynt yn teimlo ei bod yn gyfiawn defnyddio* |

| | |
|---|---|
| | *grym. Mae mwy nag un swyddog wedi mynychu oherwydd natur y digwyddiad. Os oedd y swyddog cysylltiedig yn teimlo bod gan y swyddog arweiniol reolaeth ddigonol dros y sefyllfa, yna mae'n debygol nad oedd yn credu bod angen iddo ymyrryd yn gorfforol yn y digwyddiad hefyd.* |
| Ymholiadau sy'n gysylltiedig â chofnod 2:<br><br>1. Nid oedd yn glir o'r ffurflen a oedd y trydydd parti yn y lleoliad yn weithiwr proffesiynol neu'n ffrind/aelod o'r teulu i'r sawl a ddrwgdybir. Gan fod yr unigolyn hwn yn amlwg drwy gydol y fideo a'i gwelwyd yn rhoi ei ddwylo ar y plentyn tra oedd wedi ei arestio, a ellir egluro hyn os yw'n hysbys? Os nad oedd yn weithiwr proffesiynol, a ydych chi'n credu y dylai swyddogion fod wedi ymyrryd cyn i'r unigolyn roi ei ddwylo ar y plentyn?<br><br>2. Defnyddiwyd term gan y swyddog arestio a ystyriwyd gan y Panel Sicrhau Ansawdd yn amhriodol ac nad oedd yn canolbwyntio ar y plentyn. Beth yw barn yr heddlu ynglŷn â hyn?<br><br>3. Pa ystyriaethau mae'r heddlu'n eu rhoi i ddiogelwch a lles person sydd wedi'i arestio ar ôl iddo gael ei roi mewn fan? Ymddengys bod y fideo'n dangos, oherwydd nad oedd y plentyn yn | *1) Nid yw hunaniaeth y trydydd parti yn y lleoliad yn hysbys. O ran a ddylai swyddogion fod wedi ymyrryd i atal y person rhag rhoi dwylo ar berson ifanc tra oedd wedi ei arestio, byddai hyn fel arfer yn dibynnu ar yr amgylchiadau ar y pryd. Os yw person o'r fath yn "aelod ar hap o'r cyhoedd" yna yn gyffredinol ni ddylid caniatáu iddynt gael unrhyw gyswllt corfforol â'r unigolyn a arestiwyd a byddem yn disgwyl i swyddogion ymyrryd i atal hyn. Yr eithriad fyddai pe bai swyddogion yn delio, er enghraifft, ag unigolyn hynod o dreisgar ac yn ei chael hi'n anodd cael rheolaeth effeithiol drosto. GALL aelod o'r cyhoedd sy'n mynd heibio ddewis ymyrryd i gynorthwyo'r swyddogion ac ar yr amod bod eu gweithredoedd a'u hymyrraeth yn gyfiawn ac yn gymesur a bod unrhyw ddefnydd o rym yn "rhesymol" yna mae'n debyg y byddent yn gweithredu'n gyfreithlon o dan ddarpariaethau naill ai "Cyfraith Gyffredin" neu "adran 3 o Ddeddf Cyfraith Trosedd" gan eu bod yn ceisio* |

| | |
|---|---|
| cydymffurfio, ei fod wedi cael ei adael ar y llawr gyda'i ddwylo mewn gefynnau y tu ôl i'w gefn. A ystyrir bod hyn yn arfer priodol? | *atal niwed iddynt eu hunain neu i rywun arall (Cyfraith Gyffredin) neu'n cynorthwyo i arestio troseddwr, troseddwr a ddrwgdybir neu unigolyn sy'n rhydd yn anghyfreithlon (adran 3 o Ddeddf Cyfraith Trosedd). Os yw'r trydydd parti, fel mae'n ymddangos yn yr achos hwn, yn adnabod yr unigolyn a arestiwyd, yna mae pethau'n mynd yn fwy cymhleth gan y gallai unigolyn o'r fath fod o gymorth mawr i'r swyddogion wrth roi sicrwydd i'r person a arestiwyd a'i helpu i dawelu ac atal sbarduno ymateb "ymladd neu ffoi" a fyddai'n debygol o arwain at ddwysáu'r defnydd o rym sydd ei angen i reoli'r sefyllfa. Byddai'n rhaid i unrhyw ymyrraeth o'r fath gan drydydd parti mewn amgylchiadau o'r fath fod yn destun asesiad risg gweithredol dynamig parhaus gan y swyddogion ar y pryd.*<br><br>*2) Fel y nodir yng nghofnod 1, roedd hon yn sefyllfa ymfflamychol a heriol i ddelio â hi; fodd bynnag, er efallai bod defnydd iaith y swyddog yn ddealladwy yng ngwres y foment, nid yw'n dderbyniol serch hynny ac fel uchod bydd hyn yn cael ei amlygu i'r swyddog a'r goruchwyliwr er mwyn galluogi ymarfer myfyriol. Mae swyddogion wedi cael hyfforddiant helaeth mewn dad-ddwysáu a chyfathrebu tactegol a chyn belled ag y bo modd dylent ymatal rhag gwneud sylwadau sarhaus neu ddirmygus tuag at unigolion y maent yn delio â nhw.* |

| | |
|---|---|
| | 3) *O ran lles pobl mewn fan heddlu, pan roddir unigolion sydd wedi'u harestio yng nghawell gefn fan heddlu, y protocol yw bod swyddog yn cynnal arsylwadau cyson ar yr unigolyn sydd wedi'i gadw yng nghefn y fan heddlu ar y daith i'r ddalfa. Mae gan bob un o'n faniau ddrysau cefn tryloyw i'r cewyll a seddi sy'n wynebu'r cefn i ganiatáu i swyddog gynnal arsylwadau cyson a disgwylir i'r swyddog gyfleu unrhyw broblemau gyda'r unigolyn a gedwir yn gaeth i yrrwr y fan heddlu fel y gellir stopio'r cerbyd yn ddiogel os oes angen a gall y swyddogion ymyrryd.*<br><br>*Yn gyffredinol, ni ddisgwylir i swyddogion deithio yn y cawell gyda'r unigolyn sydd wedi'i gadw'n gaeth ar y ffordd i'r ddalfa. Ni ellir agor y cawell mewn unrhyw ffordd o'r tu mewn ac o ganlyniad, ni fyddai gan swyddog y tu mewn i'r cawell gydag unigolyn sydd wedi'i gadw'n gaeth unrhyw lwybr i dynnu'n ôl os bydd y sefyllfa'n gwaethygu'n sydyn a bygythiad i'w diogelwch personol. Mae'r cawell hefyd wedi'i gynllunio i gludo un unigolyn ar y tro felly mae lle cyfyngedig y tu mewn i'r cawell sydd eto'n cynyddu'r risg o anaf.*<br><br>*Mae hyfforddiant diogelu personol a diogelwch yn addysgu gweithdrefnau cywir ar gyfer gosod unigolyn sydd wedi'i gadw'n gaeth yng nghefn fan yr heddlu; fodd bynnag, mae angen derbyn pan fydd unigolyn yn hynod* |

| | |
|---|---|
| | *ymosodol a ddim yn cydymffurfio efallai na fydd modd cyflawni'r "safon aur" o osod unigolyn yn y cawell cefn heb risg ddifrifol i'r swyddogion a'r unigolyn. Felly bydd swyddogion yn gwneud eu gorau i osod yr unigolyn sydd wedi'i gadw yn y cawell yn ddiogel a dylent wneud hynny gyda'r grym lleiaf sydd ei angen.* |
| Gwelodd y Panel Sicrhau Ansawdd ddau achos ar wahân lle bu swyddogion yn brwydro i gael plentyn i mewn i fan heddlu yng nghofnodion 2 a 3. Roedd y Panel Sicrhau Ansawdd yn canmol y ffordd y gwnaeth y swyddogion yng nghofnod 3 ailystyried y sefyllfa a chaniatáu i'r plentyn ddod i mewn o'i ewyllys ei hunan. A ydych chi'n ystyried bod modd cymharu'r ddau gofnod; ac os felly, a oes unrhyw ddysgu y gellid ei nodi o hyn? | *Mae'r cofnodion yn gymharol o ran y math o ddigwyddiad serch hynny maent yn ymwneud â dau unigolyn gwahanol ac felly mae angen i ni fod yn ofalus wrth eu cymharu'n uniongyrchol. Wedi dweud hynny, mae cofnod 3 yn enghraifft o sgiliau "dad-ddwysáu" a "chyfathrebu tactegol" rhagorol. Yn achos cofnod 2, mae swyddogion wedi wynebu unigolyn a oedd yn ymwrthod yn ymosodol ac wedi cael anhawster i roi'r unigolyn yn y fan heddlu. Efallai y byddai ymdrechion pellach i ddad-ddwysáu wedi bod yn llwyddiannus (fel yng nghofnod 3) ac mae hyn yn unol â'r hyfforddiant cyfredol felly byddwn yn ystyried tynnu sylw'r swyddogion dan sylw at hyn er mwyn iddynt fyfyrio'n bersonol arno.* |
| Nid oedd y Panel Sicrhau Ansawdd yn siŵr bod swyddogion wedi archwilio'n drylwyr y rhesymau pam roedd y plentyn yng nghofnod 3 yn amharod i ddychwelyd i'r cartref gofal. Pe bai hyn wedi cael ei archwilio mae'n bosibl na fyddai defnyddio grym wedi cael ei ystyried yn angenrheidiol. A fyddech chi'n cytuno â'r asesiad hwn? | *O ran yr arsylwad hwn, prif ddyletswydd y swyddogion oedd sicrhau lles corfforol yr unigolyn ifanc. Roedd yr unigolyn ifanc yn byw yn y cartref gofal ac wedi dianc; felly mae'r swyddogion wedi canolbwyntio ar y prif nod o leoli'r unigolyn ifanc a'i ddychwelyd i le diogel. Dyma enghraifft o'r anawsterau a wynebir mewn plismona modern lle mae'r ffiniau rhwng rôl yr heddlu a rôl asiantaethau eraill fel y gwasanaethau cymdeithasol yn* |

| | |
|---|---|
| | *mynd yn fwyfwy aneglur. Gallai swyddogion fod wedi cymryd mwy o amser i archwilio'r rhesymau dros y dianc mewn ymgais i dawelu'r sefyllfa ac felly byddwn yn ystyried rhoi adborth i swyddogion at ddibenion myfyriol ynghylch hyn. Fodd bynnag, o ran y dyletswyddau diogelu sylfaenol tuag at unigolyn ifanc agored i niwed, mae'r swyddogion wedi cyflawni'r ddyletswydd hon yn effeithiol yn yr achos hwn.* |
| Mewn cryn dipyn o'r fideo camera corff a welwyd, mae'r Panel Sicrhau Ansawdd yn teimlo bod cyflwyniad y swyddogion a'r esboniad o reswm dros y cyswllt yn absennol neu'n anghyson. Nid yw hyn yn awgrymu na ddigwyddodd hyn, ond nid yw'r ffordd y mae fideo'r camera corff yn cael ei olygu yn gyson â hyn.<br><br>A yw hwn yn broblem a nodwyd o adolygiadau goruchwylio? | *Mae swyddogion wedi'u hyfforddi i gyfathrebu'n effeithiol ag unigolion lle bynnag y bo modd mewn perthynas â phob cyfarfyddiad plismona. Mae yna achlysuron lle nad yw hyn yn ymarferol oherwydd ymddygiad unigolyn neu amgylchiadau eraill yn lleoliad y digwyddiad. Nid yw'r fideo camera corff a ddarparwyd i'r Panel Sicrhau Ansawdd wedi'i "golygu" gan swyddogion cyswllt yr heddlu sydd â'r dasg o ddarparu'r fideo, felly'r fideo yw'r fideo cyflawn fel y'i recordiwyd gan y swyddogion. Bydd lluniau camera corff yn dechrau recordio unwaith y bydd y swyddog yn pwyso'r botwm priodol ar flaen y ddyfais a bydd y lluniau hyn yn cynnwys y 30 eiliad o luniau CYN pwyso'r botwm actifadu. Felly, efallai nad yw swyddogion yn cofio actifadu'r ddyfais nes eu bod eisoes yn ymwneud â'r unigolion. Bydd nodyn atgoffa yn cael ei gylchredeg drwy ffrwd newyddion yr heddlu i gynghori swyddogion y dylent actifadu camera corff cyn iddynt gyrraedd lleoliad digwyddiad er mwyn sicrhau bod y rhyngweithio llawn yn cael ei gofnodi ar eu camera corff.*<br><br>*Yn seiliedig ar asesiad o adolygiadau goruchwylio, nid yw'n ymddangos* |

| | |
|---|---|
| | *bod y mater hwn wedi'i amlygu yn yr adolygiadau, felly bydd yn cael ei ddosbarthu drwy'r ffrwd newyddion ar draws yr heddlu, a fydd yn weladwy i bob swyddog.* |
| Yng nghofnod 6, mae'r Panel Sicrhau Ansawdd yn sylwi nad oedd angen gwisgo'r menig du cyn gweithredu'r defnydd o rym. Efallai bod hyn wedi dychryn y plentyn ac efallai ei fod wedi cyfrannu at waethygu'r sefyllfa a ddatblygodd. Ydych chi'n cytuno â'r asesiad hwn? | *Diben defnyddio menig nitril neu ffabrig cyn ymgysylltu'n gorfforol ag unrhyw unigolyn yw amddiffyn swyddogion rhag clefydau heintus, hylifau corfforol ac ati. Gall menig nitril fod naill ai'n las, yn borffor neu'n ddu o ran lliw yn dibynnu ar yr hyn sydd ar gael i'r swyddog / mewn stoc yn y storfa cyfarpar diogelu personol. Mae menig cyfarpar diogelu personol ffabrig yn ddu o ran lliw. Gellir cyfiawnhau defnyddio cyfarpar diogelu personol gan swyddogion er mwyn sicrhau eu diogelwch eu hunain ac os bydd gan y swyddogion unrhyw fath o doriad neu anaf i'w dwylo yna mae hyd yn oed yn bwysicach. Derbynnir y gallai defnyddio menig du fod wedi arwain at fwy o ofid i'r unigolyn ifanc; fodd bynnag, ni fyddem yn goddef rhoi swyddog mewn perygl o anaf neu haint (neu roi unigolyn mewn perygl o haint) trwy beidio â defnyddio cyfarpar diogelu personol.* |
| Yng nghofnod 7, hoffai'r Panel Sicrhau Ansawdd roi adborth i'r swyddogion dan sylw y dylai'r rheolwyr llinell ganmol y gofal, yr amynedd a'r proffesiynoldeb a ddangoswyd ganddynt wrth drin y plentyn hwn. A ellir hwyluso hyn? | *Gwerthfawrogir y sylwadau hyn gan y panel yn fawr a bydd swyddogion cyswllt yr heddlu yn sicrhau eu bod yn cael eu trosglwyddo i'r swyddogion, eu goruchwylwyr ac i uwch-dîm arwain yr uned reoli sylfaenol berthnasol.* |

## 5. Camau nesaf

Mae'r Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn mynychu'r Grŵp Defnydd Moesegol o Bwerau'r Heddlu yn rheolaidd, sef cyfarfod sy'n cyn-nwys y Prif Arolygydd o weithrediadau arbenigol ochr yn ochr ag arolygwyr o bob rhanbarth o Ddyfed-Powys i graffu ar berfformiad o ran defnyddio grym a stopio a chwilio. Amcan y cyfarfod hwn yw rheoli perfformiad mewn ffordd holistaidd, effeithiol, a chyson ar gyfer Grŵp Defnydd Moesegol o Bwerau'r Heddlu ledled Heddlu Dyfed-Powys. O fewn y fforwm hwn y bydd canfyddiadau'r panel sicrhau ansawdd yn cael eu rhannu a bydd cynnydd yn cael ei fonitro.